10. Trysor cudd

Beth sydd yn y blwch?

- **ffon fêl**
- **spatwla**
- **broc môr**
- **cragen**
- **lwffa**
- **cragen cneuen goco**
- **llwy bren**

Datblygu sgiliau:
- **darganfod a dysgu am eu corff**
- **archwilio ac arbrofi**
- **gwneud dewisiadau a chyfleu hoff bethau**
- **gwneud cysylltiadau â'r byd**

Hysbysiad Diogelwch Pwysig
Peidiwch byth â gadael eich plentyn ar ei ben ei hun gyda'r eitemau mewn basged drysor

Cyflwyno'r cefndir:

- Dewiswch amser priodol i chwarae, pan fydd eich plentyn yn effro, yn gyfforddus ac yn fodlon.
- Sefydlwch drefn benodol – gallai gormod o symbylu ddrysu eich plentyn.
- Ailadroddwch yr un gweithgaredd sawl gwaith gan y bydd yn helpu eich plentyn i gadw'r sgiliau a ddysgwyd.
- Siaradwch am yr hyn yr ydych chi a'ch plentyn yn ei wneud.
- Ewch ar gyflymder y plentyn – rhowch amser iddynt archwilio a darganfod.
- Ceisiwch sicrhau na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws fel y gallwch chi a'ch plentyn ganolbwyntio.
- **Yn anad dim – ymlaciwch, mwynhewch a sicrhewch eich bod yn cael hwyl gyda'ch gilydd.**

Gweithgareddau:

- Lleolwch eich plentyn er mwyn sicrhau y gallant ddefnyddio eu dwylo cymaint â phosibl i archwilio.
- Rhowch yr holl eitemau o flaen eich plentyn.
- Rhowch ddigon o amser i'ch plentyn a chymaint o gymorth ag y bydd ei angen arnynt i archwilio pob un o'r eitemau.
- Gadewch iddynt archwilio gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrau.

Y cam nesaf:

- dewch o hyd i wrthrychau naturiol eraill i'w defnyddio e.e. cerrig bach, cregyn, rhaff, concyrs, llwy, brws dannedd (gan fod yn ofalus os yw'r plentyn yn defnyddio eu ceg i archwilio)
- defnyddiwch ymweliadau i wneud basgedi a fydd yn berthnasol i brofiadau e.e. mynd i'r parc – rhisgl coeden, moch coed, plu, pot pourri.

Cysylltiadau â ‘birth to three matters’

Plentyn cryf:
- teimlo’n hunan-hyderus a bod cymorth ar gael iddynt
- mwynhau bod gyda phobl eraill gyfarwydd yr ymddiriedir ynddynt
- adnabod nodweddion a dewisiadau personol.

Cyfathrebydd medrus:
- archwilio, arbrofi, labelu a mynegi
- cael sylw a gwneud cyswllt
- negodi a gwneud dewisiadau.

Dysgwr hyfedr:
- ymateb i’r byd mewn ffordd greadigol
- chwarae’n ddychmygus gyda deunyddiau gan ddefnyddio pob un o’r synhwyrau.

Plentyn iach:
- meithrin sgiliau corfforol
- dangos dewisiadau unigol
- gwneud penderfyniadau.

Cysylltiadau â’r cyfnod sylfaen

Defnyddio a chymhwyso mathemateg:
- ymchwilio ac archwilio’r amgylchedd
- adnabod cydberthnasau.

Rhifau a thrin data:
- profiadau ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau
- didoli a pharu.

Mesur:
- cael profiadau uniongyrchol o gymharu, cyferbynnu a pharu gwahanol wrthrychau a deunyddiau
- archwilio a phrofi màs a hyd Siâp a Gofod
- nodweddion tebyg a gwahanol
- trin amrywiaeth eang o siapiau 3D.

Arsylwi ac asesu

- Nodwch yr hyn y maent yn ei hoffi / beth nad ydynt yn ei hoffi.
- Defnyddiwch eitemau y mae’r plentyn yn eu hoffi i lunio pecyn o ddeunydd atgyfnerthu cadarnhaol hysbys.
- Trafodwch nodweddion gwahanol wrthrychau e.e. gwead, siâp ac ati.
- Peidiwch â diystyru gwrthrychau nad yw’r plentyn fel petai’n eu hoffi. Ailgyflwynwch hwy yn ddiweddarach i weld a oes unrhyw newidiadau.
- Gwnewch fasgedi trysor eraill – gan eu cysylltu â thestunau.

Mae’r cardiau hyn yn ymwneud yn benodol â rhifedd a datblygiad mathemategol. Fodd bynnag bydd y gweithgareddau hefyd yn ategu meysydd dysgu eraill.

7953_10 Rhif Elusen Gofrestredig: 208231. © Scope Mai 2011

RNIB Cymru yn cefnogi pobl ddall ac â golwg rhannol supporting blind and partially sighted people

scope cymru

Rhif Elusen Gofrestredig 226227